# CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
# CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR
# A GYNHALIWYD AR 17 MAI 2017

Y Maer, y Cynghorydd Wyn Thomas, fu'n cadeirio Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor, Neuadd Ddinesig San Pedr, nos Fercher yr 17eg o Fai 2017 am 7.30yh.

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Julia Ault, Daniel Bartley, Dr Baba Gana, Phil Grice, Peter Hughes Griffiths, Gareth John, Alun Lenny, Arwel Lloyd, Ken Lloyd, Dr Ioan Matthews, Miriam Moules, Emlyn Schiavone, Jeff Thomas, Matthew Thomas, Wyn Thomas a Barry Williams.

Croesawodd y Maer y Cynghorwyr i'w cyfarfod cyntaf ar ôl yr etholiad, yn enwedig y rhai a oedd yn mynychu eu cyfarfod cyntaf fel Cynghorwyr Tref. Fe wnaeth y Maer hefyd estyn dymuniadau gorau'r Cyngor i'r Cynghorydd Angharad Jones Leefe a'i theulu ar enedigaeth Mati Gwen.

1. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Parch Tom Defis ac Angharad Jones Leefe,

2. **DATGAN BUDDIANNAU**

Dywedodd y Cyngh Alun Lenny bod ganddo fuddiant yn eitem rhif 9(i) ar yr agenda, Aelodaeth Pwyllgorau, fel Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin ac yn eitem 11 fel Cyfarwyddwr Oriel Myrddin.

Dywedodd y Cyngh Ken LLoyd bod ganddo fuddiant yn eitem rhif 9(i) ar yr agenda, Aelodaeth Pwyllgorau, fel aelod posib o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin.

Dywedodd y Cyngh Daniel Bartley bod ganddo fuddiant yn eitem 6 ar yr Agenda mewn perthynas â'i waith fel Rheolwr Gwylfa Gwasanaeth Tân Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Dywedodd y Cyngh Jeff Thomas bod ganddo fuddiant yn eitem 11 ar yr Agenda fel Llywodraethwr Ysgol Gynradd Tre Ioan.

3. **ENWEBIADAU MAER TREF CAERFYRDDIN AM 2017/2018**

Ar gynnig y Cyngh Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyngh Phil Grice, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol i enwebu'r Cyngh Alun Lenny yn Faer Tref Caerfyrddin am y flwyddyn 2017/2018.

4. **ENWEBIADAU DIRPRWY FAER TREF CAERFYRDDIN AM 2017/2018**

Ar gynnig y Cyngh Dr Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyngh Gareth John **PENDERFYNWYD** yn unfrydol i enwebu'r Cyngh Emlyn Schiavone yn Ddirprwy Faer Caerfyrddin am y flwyddyn 2017/2018.

5. **ENWEBIADAU SIRYF TREF CAERFYRDDIN AM 2017/2018**

Cynnigodd y Cyngh Ken Lloyd, eiliwyd gan y Cyngh Dr Baba Gana, y Cyngh Phil Grice yn Siryf am 2017/2018.

Cynnigodd y Cyngh Emlyn Schiavone y Cyngh Jeff Thomas, eiliwyd gan y Cyngh Miriam Moules. Diolchodd y Cyngh Jeff Thomas y Cynghorwyr am yr enwebiad ond oherwydd mai hwn yw ei dymor cyntaf ar y Cyngor Tref, gwrthododd yr enwebiad.

**PENDERFYNWYD** yn unfrydol i enwebi'r Cynghorydd Phil Grice yn Siryf y Dref am y flwyddyn 2017/2018.

6. **PLEIDLAIS O DDIOLCH I'R MAER SY'N YMDDEOL**

Cytunwyd gan bawb y byddai'r mater yma yn cael ei ohirio tan y Cyfarfod Blynyddol Gohiriedig ar Nos Wener 9fed o Fehefin 2017.

7. **SUL Y MAER**

Adroddodd y Cyngh Alun Lenny mai y Parch Beti-Wyn James fyddai Caplan y Maer yn ystod ei dymor, ac y byddai gwasanaeth yn cael ei gynnal yng Nghapel y Priordy ar dydd Sul yr 11eg o Fehefin am 10 y bore.

8. **STRWYTHUR PWYLLGORAU**

Cynigiwyd gan y Cyngh Phil Grice, eiliwyd gan y Cyngh Peter Hughes Griffiths, a **PHENDERFYNWYD** sefydlu tri Pwyllgor Sefydlog am y Flwyddyn 2017/18: Pwyllgor Dibenion Cyffredinol, Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Rheoli.

9. **PENODI PWYLLGORAU**

(i) PWYLLGORAU SEFYDLOG

Cynigiwyd gan y Cyngh Dr Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyngh Philip Grice, a **PHENDERFYNWYD** bod y Pwyllgorau Sefydlog am y Flwyddyn 2017/2018 yn cynnwys yr Aelodau canlynol (a bod y Maer a'r Dirprwy Faer yn Aelodau yn rhinwedd eu swydd o bob pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 41):

**Pwyllgor Dibenion Cyffredinol**

- Cyngh Phil Grice – Ward y De
- Cyngh Peter Hughes Griffiths – Ward y Gogledd
- Cyngh Dr Baba Gana – Ward y Gogledd
- Cyngh Daniel Bartley – Ward y Gogledd
- Cyngh Angharad Jones Leefe - Ward y Gogledd
- Cyngh Alun Lenny – Ward y De
- Cyngh Arwel Lloyd – Ward y Gorllewin
- Cyngh Miriam Moules – Ward y Gogledd
- Cyngh Barry Williams – Ward y De

**Pwyllgor Cyllid**

- Cyngh Parch. Tom Defis – Ward y Gorllewin
- Cyngh Gareth John – Ward y De
- Cyngh Julia Ault – Ward y Gorllewin
- Cyngh Jeffrey Thomas – Ward y Gogledd
- Cyngh Alun Lenny – Ward y De (ex officio)
- Cyngh Ken Lloyd – Ward y Gogledd
- Cyngh Dr Ioan Matthews – Ward y Gorllewin
- Cyngh Matthew Thomas – Ward y Gorllewin
- Cyngh Emlyn Schiavone – Ward y Gorllewin
- Cyngh Wyn Thomas - Ward y De

**Pwyllgor Rheoli**

- Cyngh Wyn Thomas
- Cyngh Emlyn Schiavone
- Cyngh Alun Lenny
- Cyngh Phil Grice
- Cadeirydd y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol
- Is-gadeirydd y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol
- Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
- Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

(ii) GWEITHDREFN PWERAU BRYS

Ar y 29ain o Fai 2002 cytunodd y Cyngor ar Weithdrefn Pwerau Brys ar sail sefydlu Pwyllgor Pwerau Brys.

Cynigiwyd gan y Cyngh Phil Grice, eiliwyd gan y Cyngh Peter Hughes Griffiths, a **PHENDERFYNWYD** am y Flwyddyn 2017/18 bod y Maer, y Dirprwy Faer, a Chadeirydd naill ai'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol neu'r Pwyllgor Cyllid, yn ôl ewyllys Clerc y Dref neu Glerc Gweithredol y Dref, o ystyried y mater dan sylw, yn cael eu hawdurdodi i weithredu ar y cyd i benderfynu ar unrhyw fater brys y cyfeirir atynt gan Glerc y Dref neu Glerc Gweithredol y Dref. Os na fydd y Maer, y Dirprwy Faer na Chadeirydd naill ai'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol neu'r Pwyllgor Cyllid ar gael, bod Siryf y Dref a/neu Gadeirydd y Pwyllgor arall y cyfeirir ato uchod yn cael eu hawdurdodi i weithredu yn y cyfryw achos.

(ii) GWEITHDREFN APELIADAU

Mae angen i apeliadau ynglŷn â materion disgyblu gael eu hystyried gan yr Aelodau hynny nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor Rheoli, gan fod y pŵer gan y Pwyllgor Apeliadau i wrando ar apeliadau yn erbyn camau disgyblu a gymerwyd gan y Pwyllgor Rheoli.

Cynigiwyd gan y Cyngh Phil Grice, eiliwyd gan y Cyngh Alun Lenny, a **PHENDERFYNWYD** am y Flwyddyn 2017/18 bod y Pwyllgor Apeliadau yn cynnwys pob Aelod nad ydynt yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Rheoli, a bod gan y Pwyllgor Apeliadau y pŵer i wrando ar apeliadau yn erbyn camau disgyblu a gymerwyd gan y Pwyllgor Rheoli.

(iv) PWYLLGORAU A GRWPIAU ERAILL Y CYNGOR

Cynigiwyd gan y Cyngh Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyngh Alun Lenny, a **PHENDERFYNWYD** bod pwyllgorau a grwpiau ansefydlog y Cyngor am y Flwyddyn 2017/18 yn cynnwys yr Aelodau isod:

| | **Gr**ŵp | **Aelod(au)** |
|---|---|---|
| (1) | Cadeirydd Pwyllgor Mordwyo'r Bar, Caerfyrddin | Y Maer |
| (2) | Gwyl yr Afon, Caerfyrddin | Cyngh Phil Grice |
| (3) | Cymdeithas Glan yr Afon Caerfyrddin | Cyngh Phil Grice |
| (4) | Panel Beirniadu Gwobrau Chwaraeon Tref Caerfyrddin | Y Maer, Dirprwy Faer a Siryf |
| (5) | Grŵp Prosiect Felodrom Parc Caerfyrddin | Cyngh Alun Lenny |
| (6) | Cadeirydd Grŵp Llywio Ras Hwyl y Maer | Y Maer a Dirprwy Faer |
| (7) | Cystadleuaeth Safle Gorau (Pride of Place) | Y Maer, Dirprwy Faer, Siryf |
| (8) | Gweithgor Amgylcheddol Siân Johnston | Cyngh Parch Tom Defis a Miriam Moules |

10. **DYDDIADAU CYFARFODYDD Y CYNGOR A PHWYLLGORAU**

Cynigiwyd gan y Cyngh Ken LLoyd, eiliwyd gan y Cyngh Peter Hughes Griffiths, a **PHENDERFYNWYD** cadarnhau'r dyddiadau canlynol yn unol â'r Rheolau Sefydlog ar gyfer 2017/2018:

- Cynnal cyfarfodydd misol y **Cyngor** ar y nos Fercher olaf o bob mis, ac eithrio mis Awst. Fis Mehefin bydd y Cyngor yn cyfarfod ar yr 28ain. Mis Rhagfyr bydd y Cyngor yn cyfarfod ar y 13eg.

- Cynnal cyfarfodydd y **Pwyllgor Dibenion Cyffredinol** ar yr ail nos Fawrth o'r mis, ac eithrio mis Mai a mis Awst. Mis Rhagfyr bydd y pwyllgor yn cyfarfod ar y 5ed .
- Cynnal cyfarfodydd y **Pwyllgor Cyllid** ar y nos Iau sy'n dilyn y cyfarfod o'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol bob mis, ac eithrio mis Mai a mis Awst. Mis Rhagfyr bydd y pwyllgor yn cyfarfod ar y 5ed **(**yn dilyn yn syth ar ôl y cyfarfod o'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol).
- Cynnal cyfarfodydd y **Pwyllgor Rheoli** yn ôl y galw, ond o leiaf bob chwarter.
- Bod Clerc y Dref neu Glerc Gweithredol y Dref yn penderfynu ar ddyddiadau cyfarfodydd y **pwyllgorau a'r grwpiau eraill**, drwy ymgynghori â'r Cadeirydd perthnasol, oni bai bod cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwnnw, neu'r Cyngor wedi penderfynu ar ddyddiad.

  Cynigodd y Cyngh Dr Ioan Matthews bod cyfarfodydd sy'n syrthio yn ystod gwyliau hanner tymor ysgol yn cael eu cynnal ar y dydd Mercher blaenorol, eiliwyd can y Cyngh Arwel Lloyd. **CYTUNWYD** gan bawb bod y cyfarfodydd perthnasol yn cael eu symud.

11. CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL

Cynigiwyd gan y Cyngh Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyngh Philip Grice, a **PHENDERFYNWYD** mai'r Aelodau fydd yn cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol am y flwyddyn 2017/2018 yw fel a ganlyn:

**(i) Grwpiau a Chymdeithasau**

| | **Grŵp** | **Aelod (au)** |
|---|---|---|
| (1) | Siambr Fasnach Caerfyrddin | Y Maer, Cyngh Wyn Thomas a staff y Cyngor lle bo'n briodol |
| (2) | Cymdeithas Ddinesig Caerfyrddin | Cyngh Matthew Thomas |
| (3) | Tywyswyr Tref Caerfyrddin – yn cynorthwyo'r Ganolfan Croeso sydd bellach yn rhedeg y cynllun | Cyngh Philip Grice ac Alun Lenny |
| (4) | Fforwm Adfywio Tref Caerfyrddin | Cyngh Jeff Thomas |
| (5) | Cymdeithas Gefeillio Tref Caerfyrddin | Cyngh Peter Hughes Griffiths |
| (6) | Cyngor Iechyd Cymuned Sir Gaerfyrddin | Cyngh Barry Williams |
| (7) | Grŵp Clwstwr Cymdeithas Ymwelwyr Sir Gâr | Cyngh Phil Grice |
| (8) | Canolfan Addysg Gymunedol | Cyngh Phil Grice a Wyn Thomas |
| (9) | Prosiect Ieuenctid Dr Mz | Y Maer, Cyngh Phil Grice, Emlyn Schiavone a Julia Ault |
| (10) | Masnach Deg - Cyfarfodydd Sirol | Cyngh ParchTom Defis a Miriam Moules |
| (11) | Masnach Deg - Cyfarfodydd Cyhoeddus y Dref | Cyngh Parch Tom Defis a Miriam Moules |
| (12) | Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned Mwyaf De Cymru | Y Maer a'r Clerc |
| (13) | Menter Gorllewin Sir Gâr | Cyngh Arwel Lloyd |
| (14) | Shop Mobility | Cyngh Parch Tom Defis a Miriam Moules |
| (15) | Pwyllgor Rheoli Prosiect Teulu Tŷ Ni a Tŷ Hapus | Cyngh Daniel Bartley a Emlyn Schiavone |
| (16) | Un Llais Cymru (gan gynnwys mynychu cyfarfodydd cangen y sir a chynhadledd/ cyfarfod blynyddol) | Cyngh Ken Lloyd |

| | | |
|---|---|---|
| (17) | Grŵp Cynghorau Lleol Mwyaf Un Llais Cymru | Cyngh Ken Lloyd |

**Ymddiriedolaethau**

| | |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Oriel Myrddin (tymor o 4 blynedd) | Dywedodd y Cyngh Alun Lenny bod yr Ymddiriedolaeth yn y broses o Trosglwyddo Asedau a bod ymddiriedolwyr yn eu lle. |

Cynigiwyd gan y Cyngh Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyngh Dr Ioan Matthews a **CHYTUNWYD** gan bawb bod y penderfyniad i enwebu ei ohirio hyd nes y clywir yn wahanol.

**Cyrff Llywodraethol Ysgolion**

Oherwydd newidiadau yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion, cynigiwyd gan y Cyngh Dr Ioan Matthews, eiliwyd gan y Cyngh Arwel Lloyd a **CHYTUNWYD** gan bawb bod y Cyngor yn aros am gais gan yr ysgolion perthnasol cyn enwebu Aelod o'r Cyngor.

Cynigodd y Cyng Dr Ioan Matthews fod pob Aelod yn adrodd i'r Cyngor ar aelodaeth y grwpiau perthnasol dim ond adrodd ar grwpiau lle maent yno i gynrychioli'r Cyngor. Eiliwyd gan y Cyng Jeff Thomas a **CHYTUNWYD** gan bawb.

12. **HYRWYDDWR HYFFORDDIANT AELODAU**

**PENDERFYNWYD** bod y Siryf, y Cyngh Phil Grice, yn gweithredu fel Hyrwyddwr Hyfforddiant y Cyngor.

13. Cynigiwyd gan y Cyngh Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyngh Alun Lenny, a **PHENDERFYNWYD** bod y Cyfarfod Blynyddol yn cael ei ohirio tan 18:30 ar ddydd Gwener, y 9fed o fis Mehefin 2017 yn y Neuadd Sirol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8:25 y.h**